

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Edmund Rees

Nos Lun Tachwedd 12fed 2018 am 7.30 y.h.

Cofnodion

- 1a) Cafwyd ymweliad i'r cyfarfod gan PCSO Jonathan Thomas Heddlu Gogledd Cymru. Pwrpas ei ymweliad oedd cyflwyno ei hun.
1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gerallt Jones, Paul Weston.
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Cyng. Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Hydref:** cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Gwynfor Roberts gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
5.1. Coeden Nadolig – penderfynwyd archebu gan Ifor Lloyd, Llanfairtalhaiarn ar gost o £180.00.
6. **Gohebiaeth:**
6.1 Fferm Wynt Clocaenog – cyfarfod yng Nherrigydrudion nos Fawrth Tachwedd 13eg – cytunodd Gari Jones, Gerallt Jones ac Edmund Rees fynd.
7. **BDO – ffurflen flynyddol:**
a) Derbyniwyd yr Archwiliad Blynyddol gan yr Archwilwyr Allanol BDO. Materion a godwyd wedi ei drafod a'i nodi. Y ffurflen flynyddol wedi ei chymeradwyo a'i derbyn gan Alun Owen yn cynnig a Gari Jones yn eilio ac oll o'r Cynghorwyr yn ei chymeradwyo.
b) **Pwyntiau Archwilio a Sylwadau**
Tudalen 3
Swyddog Ariannol Cyfrifol – pwynt gymryd a fydd yn gymwys ym mlynnyddoedd y dyfodol. Hawliau etholwyr – yn y dyfodol byddwn yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth o'r hysbysiadau'n cael eu darparu.
Tudalen 4
Yn y dyfodol byddwn yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gwybodaeth yn cael ei darparu.
Tudalen 5
Byddwn yn cofnodi'r pŵer statudol yn y dyfodol ochr a'r eitem gwariant yn y cofnodion.
Tudalen 6
Arian rhodd - rydym wedi nodi eich sylwadau.
Mân faterion – byddwn yn y dyfodol yn ymdrechu i beidio â gwneud mân wallau neu hepgoriadau.
Tudalen 7
Yn y dyfodol byddwn yn ceisio dod o hyd i Archwilydd Mewnol sy'n barod i gwblhau'r 'Amlinelliad o'r gwaith gafodd ei wneud' ond gan ein bod yn gyngor bach iawn o ran y boblogaeth a throsiant bydd yn anodd iawn cyfiawnhau cost fawr fel hyn.
Cofnodion – yn y dyfodol byddwn yn mynnu bod Archwilwyr yn gweithio'n agosach gyda'n Cyngor Cymuned fel na fydd camddealltwriaeth yn digwydd.
Cyllideb – mae'r gyllideb yn cael ei fonitro'n dynn bob mis a bod yr holl Gynghorwyr a'r Clerc yn ymwybodol o'r cronfeydd a gynhaliwyd wrth gefn ym mhob cyfarfod.

8. **Cost archebu ffurflenni cyfrifon:**
Bydd angen tal o £25 os bydd unrhyw aelod o'r cyhoedd angen copïau o'r cyfrifon blynyddol.
9. **Monitro'r Gyllideb:**
Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
10. **Cyfrifo ac Archwilio:**
Archwiliwyd cysyniadau banc a chafwyd popeth mewn trefn.
11. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:** Cafwyd gair gan y Cyng. Sirol ac ymfalchiodd yn y ffaith fod y Cynulliad wedi cytuno fod problem or-yrro ar yr 'EVO Triangle'. Maent wedi neilltuo arian ar gyfer gwelliannau diogelwch ar y rhan yma o'r ffordd. Bydd treth y Cyngor yn codi 11% y flwyddyn nesaf.
12. **Unrhyw fater arall:**
 - 12.1. Cais ar i'r Cyngor Cymuned gefnogi ail gais cynllunio (cais gwelliant) Mr a Mrs Deio ac Alys Gwyndaf a Parry. Cytunwyd i anfon llythyr yn cefnogi'r cais.
 - 12.2. Fan wedi ei gadael ar y ffordd ger yr ysgol. Y clerch i gysylltu gyda'r heddlu.
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Rhagfyr 3ydd 2018 am7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____ **E Rees** _____
Cadeirydd

Dyddiad _____ 03.12.18
